

Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig (ISA) ar gyfer 2^{il} Gynllun Datblygu Lleol Amnewid Caerffili

Crynodeb Annhechnegol Adroddiad ISA

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Hydref 2026

Gwybodaeth ansawdd

Paratowyd gan	Gwiriwyd gan	Dilyswyd gan	Cymeradwywyd gan
CB: Cyfarwyddwr Cyswllt	EH: Uwch Gynllunydd Amgylcheddol	NCB: Cyfarwyddwr Technegol	NCB: Cyfarwyddwr Technegol

Hanes Adolygu

Adolygiad	Dyddiad adolygu	Manylion	Enw	Swydd
V0.1	Hydref 2026	Drafft cyntaf ar gyfer adolygiad mewnol	CB	AECOM (AD)
V1.0	Hydref 2026	Drafft cyntaf ar gyfer adolygiad cleientiaid	CB	AECOM (AD)
V2.0	Hydref 2026	Drafft terfynol ar gyfer cyfieithu ac ymgynghori	CB	AECOM (AD)

Paratowyd ar gyfer:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Paratowyd gan::
AECOM Limited
3 Rivergate
Temple Quay
Bryste BS1 6ER

Ff: +44 (0)117 901 7000
aecom.com

© 2026 AECOM Limited. Cedwir Pob Hawl.

Paratowyd y ddogfen hon gan AECOM Infrastructure & Environment UK Limited (“AECOM”) at ddefnydd ein cleient yn unig (y “Cleient”) yn unol ag egwyddorion ymgynghori a dderbynnir yn gyffredinol, y gyllideb ar gyfer ffioedd a’r cylch gorchwyl y cytunwyd arnynt rhwng AECOM a’r Cleient. Nid yw unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan drydydd partïon ac y cyfeirir ati yma wedi’i gwirio na’i dilysu gan AECOM, oni nodir yn wahanol yn y ddogfen. Ni fydd AECOM yn atebol i unrhyw drydydd parti sy’n defnyddio’r ddogfen hon neu sy’n dibynnu arni.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
1.1	Cefndir.....	1
1.2	Y CDLIA.....	1
1.3	Cwmpas yr ISA.....	1
1.4	Strwythur yr NTS hwn.....	2
2.	Dewisiadau amgen rhesymol.....	3
2.1	Gofynion	3
2.2	Gwaith ac ymgynghoriadau blaenorol ar yr ISA	3
2.3	Pennu opsiynau - lefel twf	3
2.4	Pennu opsiynau - lleoliad twf.....	4
2.5	Methodoleg.....	1
2.6	Canlyniadau asesu – lefel twf.....	2
2.7	Canlyniadau asesu – lleoliad twf	4
3.	Ymateb y Cyngor i asesiad o ddewisiadau amgen	7
3.1	Y dull a ffefrir	7
3.2	Ymateb y Cyngor i'r opsiynau ar gyfer lefel y twf.....	7
3.3	Ymateb y cyngor i opsiynau ar gyfer lleoliad twf.....	8
4.	Asesiad o'r Cynllun Adnau	12
5.	Camau nesaf	13

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

- 1.1.1 Comisiynir AECOM i arwain ar Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig (ISA) i gefnogi 2^{il} Gynllun Datblygu Lleol Amnewid (2CDLIA) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r ISA yn cyflawni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA), Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA), Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (WLIA) a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFG) mewn un broses asesu integredig.
- 1.1.2 Mecanwaith ar gyfer ystyried a chyfleu effeithiau tebygol egin gynllun yw ISA, ac opsiynau amgen o ran materion cynaliadwyedd allweddol. Nod ISA yw hysbysu a dylanwadu ar y broses gynllunio, gyda'r bwriad o osgoi a lliniaru effeithiau negyddol a gwneud yn fawr o effeithiau cadarnhaol.
- 1.1.3 Rhan allweddol o'r broses yw cyhoeddi Adroddiad ISA ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghori. Dyma'r Crynodeb Annhechnegol (NTS) ar gyfer yr Adroddiad ISA.

1.2 Y CDLIA

- 1.2.1 Bydd 2CDLIA yn nodi cynigion datblygu defnydd tir ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, a bydd yn nodi ble a faint o ddatblygiad newydd fydd yn digwydd dros gyfnod y cynllun. Bydd hefyd yn nodi ardaloedd i'w diogelu rhag datblygu ac yn darparu polisïau y bydd ceisiadau cynllunio yn y dyfodol yn cael eu hasesu yn eu herbyn.
- 1.2.2 Mae cyfnod cynllun 2CDLIA yn rhedeg rhwng 2020 a 2035. Mae gweledigaeth 2CDLIA yn edrych ymlaen at ddiwedd cyfnod y cynllun (2035) ac yn rhagweld sut y bydd y polisïau, y dyraniadau safle a'r dynodiadau a nodir yn y cynllun yn cyfrannu at gymdeithas fwy cadarnhaol o safbwynt cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol. Mae'n pennu'r cyfeiriad cyffredinol a fynegir ymhellach yn yr amcanion mwy penodol sy'n dilyn ac sy'n ffurfio'r cysylltiad rhwng y strategaeth twf gofodol a'r polisïau strategol. Mae amcanion wedi'u pennu o dan bynciau newid hinsawdd, tai, iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol, creu lleoedd, diwylliant a threftadaeth, teithio egniol a chynaliadwy, twf economaidd, a'r amgylchedd naturiol.

1.3 Cwmpas yr ISA

- 1.3.1 Cwmpas yr ISA, yn ei hanfod, yw'r materion / amcanion cynaliadwyedd a ddylai fod yn ffocws i'r ISA (a darparu fframwaith methodolegol eang ar ei gyfer). Crynhoir y rhain gan fframwaith yr ISA – gweler Tabl NTS.1.
- 1.3.2 Mae'r Rheoliadau'n gofyn "Wrth benderfynu ar gwmpas a lefel manylder y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr Adroddiad Amgylcheddol, bydd yr awdurdod cyfrifol yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori". Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw yw'r cyrff ymgynghori. Anfonwyd Adroddiad Cwmpasu at yr ymgynghoreion statudol i gael sylwadau yn 2022. Ystyriwyd yr ymatebion a ddaeth i law, a gwnaethpwyd diwygiadau i'r wybodaeth

sylfaenol ac Amcanion ISA drafft lle'r oedd angen. Ers y cyfnod hwnnw, mae cwmpas yr ISA wedi esblygu wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg, a bu rhyw fân fireinio ar amcanion ISA - fodd bynnag, yn sylfaenol mae'r cwmpas yr un fath â'r hyn y cytunwyd arno drwy'r ymgynghoriad cwmpasu pwrpasol yn 2022. Mae diweddariadau sylfaenol, megis data Cyfrifiad newydd, wedi cael eu hystyried drwy'r broses asesu ddilynol.

Tabl NTS.1: Fframwaith ISA

Thema ISA	Amcan ISA
Economi a chyflogaeth	Cefnogi economi gref, amrywiol a gwydn, gydag ymatebion arloesol i amodau newidiol a chefnogaeth ar gyfer gweithlu cryf yn y dyfodol.
Y boblogaeth a chymunedau	- Darparu digon o gartrefi marchnad fforddiadwy o ansawdd da, a seilwaith cymunedol, mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion a nodwyd. - Gwella ansawdd dylunio i greu lleoedd i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaeth cymuned a thai.
Iechyd a llesiant	Gwella iechyd a llesiant trigolion Caerffili.
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol.
Trafnidiaeth a symud	Cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio.
Adnoddau naturiol	- Nodi a dilyn unrhyw gyfleoedd i leihau amlygiad y boblogaeth i lygredd aer. - Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau presennol i leihau'r pwysau ar gyfer datblygu tir glas, a diogelu, lle bo'n bosib, tir amaethyddol gradd uwch. - Cefnogi rheoli/lleihau gwastraff. - Cadw, gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr.
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	Gwarchod a gwella bioamrywiaeth o fewn ac o amgylch ardal y cynllun.
Amgylchedd hanesyddol	- Cadw a gwella adnoddau treftadaeth Caerffili, gan gynnwys ei hamgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol. - Hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Caerffili.
Tirwedd	Gwarchod a gwella ansawdd a chymeriad tirwedd a threflun Caerffili.
Newid hinsawdd	- Cefnogi gwytnwch ardal Caerffili i effeithiau posib newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd o ffynonellau afonol, arfordirol a dŵr wyneb. - Lleihau cyfraniad Caerffili at newid hinsawdd sy'n deillio o weithgareddau sy'n arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr.

1.4 Strwythur yr NTS hwn

- 1.4.1 Yn dilyn y bennod gyflwyniadol hon, mae'r NTS wedi'i strwythuro, yn gyntaf, i gyflwyno asesiad o'r dull gofodol a ffeirir a dewisiadau amgen rhesymol (Penodau 2-3 - sy'n ofynnol fel rhan o'r broses ISA) cyn darparu asesiad o'r Cynllun Adnau yn ei gyfarwydd (Pennod 4 - gan gynnwys y fframwaith polisi). Yn olaf, ym Mhennod 5 disgrifir y camau nesaf ar gyfer llunio cynlluniau ac ISA.

2. Dewisiadau amgen rhesymol

2.1 Gofynion

- 2.1.1 Yn unol â gofynion rheoleiddio, mae angen esbonio sut mae gwaith a wnaed hyd yma wedi llywio'r gwaith o lunio cynlluniau, yn benodol sut mae gwaith wedi'i wneud i ddatblygu ac wedyn gwerthuso dewisiadau amgen rhesymol, a sut mae'r Cyngor wedi ystyried canfyddiadau'r asesiad wrth ddatblygu'r dull a ffefrir ar gyfer 2CDLIA.

2.2 Gwaith ac ymgynghoriadau blaenorol ar yr ISA

- 2.2.1 Yn dilyn ymlaen o'r cwmpasu, lluniwyd Adroddiad ISA Cychwynnol yn 2022 ac ymgynghorwyd arno ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir. Yn dilyn ymgynghori, ailystyriodd a diwygiodd y Cyngor y Strategaeth a Ffefrir (gan ystyried gwrthwynebiadau sylweddol i'r safle strategol arfaethedig ym Maesycwmer). Ar y sail hon, lluniwyd Adroddiad ISA Interim (2024) i gefnogi ail ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir a ddiweddarwyd ar ddechrau 2025. Cyflwynodd Adroddiadau ISA Cychwynnol ac Interim o asesiad o'r dewisiadau amgen a bennwyd ar y cam hwnnw, ac asesiad o'r strategaeth a ffefrir fel y'i cyflwynwyd ar y cam hwnnw. Nid oes angen ail-wneud y gwaith ISA sydd wedi'i wneud hyd yn hyn, ond yn hytrach mae'r Adroddiad ISA hwn yn adeiladu ar y gwaith hwnnw, gan fireinio opsiynau yn ôl yr angen a chynnwys opsiynau ychwanegol / tystiolaeth a ddiweddarwyd.

2.3 Pennu opsiynau - lefel twf

- 2.3.1 Ystyriodd yr Adroddiad ISA Interim (2024) lefel y twf yn y Fwrdeistref gan ddefnyddio'r senarios rhagamcanu poblogaeth a gynhyrchwyd yn 2024 (ac a ail-seiliwyd gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021 ac amcangyfrifon canol blwyddyn a ddiweddarwyd gan Lywodraeth Cymru). Yn gyffredinol, ystyriwyd 11 o opsiynau poblogaeth ar gyfer strategaeth y 2CDLIA: tri yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2018, pedwar yn seiliedig ar dybiaethau mudo, dau yn seiliedig ar gyfraddau adeiladu tai, un yn seiliedig ar boblogaeth economaidd, ac un ar sail cyflogaeth. Ystyriodd yr opsiynau hyn ddata Cyfrifiad 2021 a rôl Caerffili o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) a'i photensial buddsoddi economaidd.
- 2.3.2 O'r 11 senario, ystyriwyd bod pedwar yn rhesymol ac yn realistig ar gyfer strategaeth 2CDLIA, sef:
- **Opsiwn A – Prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru (LIC) yn seiliedig ar 2018:** Cynnydd cyfanswm o 2,966 o gartrefi (198 dpa) a cholled o -2,868 o bobl yn y boblogaeth oedran gweithio.
 - **Opsiwn H – Parhau â'r CDLI a fabwysiadwyd:** Cyfanswm cynnydd o 8,622 o gartrefi (575 dpa) mewn anheddau a chynnydd o 7,668 o bobl yn y boblogaeth oedran gweithio.
 - **Opsiwn I – Cyfraddau adeiladu tai hirdymor:** Cyfanswm cynnydd o 5,595 o anheddau, a chynnydd o 1,944 o bobl yn y boblogaeth o oedran gweithio.

- **Opsiwn J – Twf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yn y boblogaeth oedran gweithio:** Cyfanswm cynnydd o 6,750 o gartrefi (450 dpa) a chynnydd o 4,126 o bobl yn y boblogaeth oedran gweithio.

2.3.3 Opsiwn J fu'r opsiwn a ffeirir ers 2022 ac nid oes unrhyw ragolygon poblogaeth newydd na thystiolaeth sydd wedi ategu unrhyw opsiynau ychwanegol posibl ar gyfer lefel gyffredinol y twf.

2.4 Pennu opsiynau - lleoliad twf

2.4.1 Gan adlewyrchu'r materion sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol a'r fframwaith polisi cenedlaethol a rhanbarthol, mae chwe opsiwn allweddol wedi'u nodi hyd yn hyn ar gyfer dosbarthiad eang y twf. Sef:

1. **Parhau â'r strategaeth CDLI a fabwysiadwyd.** Mae'r opsiwn hwn yn ei hanfod yn parhau â'r dull CDLI a fabwysiadwyd ac sy'n nodi tair ardal twf strategol eang yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, y Coridor Cysylltiadau Gogleddol, a'r Coridor Cysylltiadau Deheuol.
2. **Ffocws Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd.** Manteisiodd yr opsiynau hyn i'r eithaf ar gyfleoedd datblygu ym Mlaenau'r Cymoedd i hyrwyddo twf economaidd ac ehangu'r ystod a'r dewis o dai yma, gan wneud yn fawr o'r manteision sy'n gysylltiedig â buddsoddiad a gwelliant mawr i'r Metro a'r A465.
3. **Safle Strategol Allweddol (Maesycwmer).** Mae'r opsiwn hwn yn ceisio cyflawni cyfran sylweddol o'r anghenion twf cyffredinol mewn un safle strategol ym Maesycwmer. Byddai'r opsiwn hwn yn cael ei gefnogi gan dwf ychwanegol yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd y Coed-duon Fwyaf ac Ystrad Mynach Fwyaf ond hefyd yng Nglyn Ebwy Isaf a Sirhywi lle maent wedi'u cysylltu gan drafnidiaeth gyhoeddus.
4. **Ffocws buddsoddi Metro.** Mae'r opsiwn hwn yn ceisio sicrhau'r manteision mwyaf posibl o fuddsoddiad sylweddol ym Metro De Cymru gan sicrhau twf mewn ardaloedd cysylltiedig (trwy drafnidiaeth gyhoeddus) yn Rhymni, Glynebwy, Coed-duon a Nelson.
5. **Y dull Canol y Dref yn Gyntaf.** Byddai'r opsiwn hwn yn canolbwyntio datblygiadau newydd yn agos at Brif Drefi Caerffili, Ystrad Mynach, Coed-duon, Rhisga / Pontymister a Bargod, a Chanolfannau Lleol Bedwas, Trecelyn, Nelson a Rhymni.
6. **Ffocws Basn Caerffili.** Mae'r opsiwn hwn yn ceisio gwneud yn fawr o gyfleoedd datblygu yng Nghaerffili a'r cyffiniau ac sy'n gysylltiedig â'r Coridor Cysylltiadau Deheuol.

2.4.2 Ar y cam hwn, mae'r ISA wedi ceisio ailystyried a mireinio'r opsiynau hyn, gan weithio gyda'r gronfa o safleoedd sydd ar gael ac a sefydlwyd trwy broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor. O ystyried y gwrthwynebiadau sylweddol i'r safle strategol mawr ym Maesycwmer, mae'r opsiwn hwn wedi diflannu (er gwaethaf y ffaith ei fod wedi'i asesu mewn fersiynau blaenorol o'r ISA).

2.4.3 Mae'r dull a ffeirir yn parhau i fod yn hybrid o Opsiynau 4 a 5 wedi'i gefnogi gan asesiad o aneddiadau'r Fwrdeistref Sirol a hierarchaeth aneddiadau arfaethedig newydd. Mae dull hybrid Opsiynau 4 a 5 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau gael eu lleoli i gynyddu i'r eithaf y manteision o

fuddsoddiad i'r Metro a'r potensial ar gyfer newid moddol i drafnidiaeth gynaliadwy, gan leoli datblygiadau yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy. Ochr yn ochr â hyn, mae dull Canol y Dref yn Gyntaf yn ceisio lleoli datblygiadau o fewn ac yn agos at drefi a dinasoedd presennol ar draws y rhanbarth; yn bennaf Prif Ganolfannau a Chanolfannau Lleol y Fwrdeistref Sirol.

2.4.4 Mae pob safle a ganfuwyd yn addas ac ar gael trwy Asesiad Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor wedi cael ei adolygu am eu potensial i gyfrannu'n strategol at ddarparu tai a chyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad GIS (SGDd) lefel uchel o safleoedd. Mae'r gwaith hwn wedi ffurfio opsiynau tebyg ar y cam hwn, er eu bod yn fwy cynnil o ran y safleoedd sy'n sail iddynt. Y dewisiadau a sefydlwyd ar y cam hwn:

1. **Y Strategaeth a Ffefrir.** Hybrid o'r Opsiynau 4 a 5 blaenorol sy'n cyfuno dull 'canol y dref yn gyntaf' â 'ffocws buddsoddi Metro'. Mae safleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda yn thema allweddol o dan y dull hwn.
2. **Ffocws Basn Caerffili.** Mae'r opsiwn hwn yn pwysleisio rôl Caerffili mewn twf yn y dyfodol, gan ddisgwyl mwy o dwf yn yr ardal hon fel prif anheddiad.
3. **Ffocws Blaenau'r Cymoedd.** Mae'r opsiwn hwn yn lleoli twf ychwanegol ym Mlaenau'r Cymoedd yn agos at yr A465 a buddsoddiad y Metro yma. Byddai'n canolbwyntio twf yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y Fwrdeistref Sirol.
4. **Parhau â'r strategaeth CDLI a fabwysiadwyd.** Yn debyg i asesiadau blaenorol, byddai twf o dan yr opsiwn hwn wedi'i wasgaru'n ehangach ar draws y Fwrdeistref Sirol.
5. **Strategaeth twf uwch.** Cydnabyddir bod digon o safleoedd ar gael i gyflawni lefel uwch o dwf na'r opsiwn a ffefrir ar hyn o bryd, felly mae'r opsiwn hwn yn asesu'r cyfyngiadau a'r manteision o ddefnyddio'r holl safleoedd sydd ar gael ac sy'n addas.

2.4.5 Mae Tabl NTS.2 yn nodi'r cyflenwad disgwyledig o dan yr opsiynau hyn ar lefel yr anheddiad, gan alluogi craffu manylach ar yr amrywiadau rhwng opsiynau. Yn y tabl hwn, mae gwyrdd yn dynodi cynnydd mewn cartrefi, ac oren yn dynodi gostyngiad mewn cartrefi.

Tabl NTS.2: Dewisiadau amgen rhesymol (2026)

Lleoliad	Opsiwn 1 – Strategaeth a Ffefrir	Opsiwn 2 – Ffocws Basn Caerffili	Opsiwn 3 – Ffocws Blaenau'r Cymoedd	Opsiwn 4 – Parhau â'r CDLI a fabwysiadwyd	Opsiwn 5 – Twf uwch
Wedi'u cwblhau	1,976	1,976	1,976	1,976	1,976
Ymrwymadau	1,430	1,430	1,430	1,430	1,430
Ffawdelw	978	978	978	978	978
Aberbargod	176	176	351	351	351
Bargod	55	55	55	55	55
Bedwas	44	44	44	0	44
Coed-duon	375	375	775	375	937
Caerffili	132	432	132	341	432
Maesycwmer	500	500	500	665	665
Nelson	241	241	241	241	266
Oakdale a Chroespenmaen	225	85	0	85	261
Penpedairheol	190	190	0	0	600
Rhymni ac Abertyswg	100	100	123	123	123
Rhisga ac Ynysddu	132	132	132	132	142
Ystrad Mynach a Phenybryn	597	422	422	422	607
CYFANSWM	7,151	7,136	7,159	7,174	8,867

Ffynhonnell: <Source>

2.5 Methodoleg

- 2.5.1 O ran methodoleg, yn achos pob opsiwn, archwiliodd yr asesiad **effeithiau sylweddol tebygol** ar y llinell sylfaen, gan dynnu ar yr amcanion a themâu cynaliadwyedd a nodwyd drwy gwmpasu (gweler Tabl NTS.1) fel fframwaith methodolegol.
- 2.5.2 Gwneir pob ymdrech i ragfynegi effeithiau'n gywir; fodd bynnag, mae hyn yn heriol yn ei hanfod oherwydd lefel uchel yr opsiynau dan sylw. Mae'r gallu i ragfynegi effeithiau'n gywir hefyd wedi'i gyfyngu gan ddealltwriaeth o'r llinell sylfaen (nawr ac yn y dyfodol o dan senario 'dim cynllun'). O ystyried hyn, mae angen gwneud rhagdybiaethau sylweddol ynghylch sut y gweithredir senarios 'ar lawr gwlad' a beth fyddai'r effaith ar dderbynyddion. Lle mae angen dibynnu ar dybiaethau i ddod i gasgliad ynghylch 'effaith sylweddol', nodir hyn yn glir yn nhestun yr asesiad.
- 2.5.3 Mae'n bwysig nodi y rhagfynegir effeithiau gan ystyried y meini prawf a gyflwynir yn y Rheoliadau. Felly, er enghraifft, ystyrir hyd, amllder effeithiau a'u gallu i wrth-droi. Ystyrir effeithiau cronol hefyd (h.y. lle mae effeithiau'r cynllun ar y cyd ag effeithiau gweithgarwch arall a gynlluniwyd neu sy'n parhau ac sydd y tu hwnt i reolaeth CBSC).
- 2.5.4 Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, penderfynir a yw'n debygol y bydd effaith sylweddol. Mae coch yn dynodi'r potensial am effaith negyddol sylweddol ac mae gwyrdd yn dynodi effaith gadarnhaol sylweddol. Mae llwyd yn dynodi ansicrwydd.
- 2.5.5 Lle nad yw'n bosibl rhagfynegi effeithiau sylweddol tebygol ar sail rhagdybiaethau rhesymol, gwneir ymdrechion i roi sylwadau ar rinweddau cymharol y dewisiadau amgen mewn termau mwy cyffredinol a nodi gradd o ffafriaeth. Mae'r rhif yn dynodi'r safle ac ni chaiff unrhyw effaith ar effeithiau arwyddocaol tebygol. Mae hyn yn ddefnyddiol, gan ei fod yn galluogi gwahaniaethu rhwng y dewisiadau amgen lle nad yw'n bosibl gwneud hyn ar sail arwyddocâd effeithiau. Bernir bod opsiwn sydd wedi'i restru fel 1 yn perfformio'n well o ran y thema ISA honno o'i gymharu ag opsiwn sydd wedi'i restru'n 2 neu 3 neu yn y blaen. Defnyddiwyd '=' i amlygu lle mae opsiynau'n perfformio'n gyfartal ac na ellir gwahaniaethu rhyngddynt.

2.6 Canlyniadau asesu – lefel twf

2.6.1 Mae Tabl NTS.3 yn darparu'r canfyddiadau casgliad asesu'r opsiynau ar gyfer lefel y twf.

Tabl NTS.3: Crynodeb o ganfyddiadau'r ISA ar gyfer lefel y twf

Pwnc ISA	Opsiwn A	Opsiwn H	Opsiwn I	Opsiwn J
Economi a chyflogaeth	3	1	2	1
Y boblogaeth a chymunedau	3	1	2	1
Iechyd a llesiant	2	1	1	1
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	3	1	2	1
Trafnidiaeth a symud	2	1	1	1
Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a dŵr)	1	4	2	3
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	1	4	2	3
Amgylchedd hanesyddol	1	4	2	3
Tirwedd	1	4	2	3
Newid hinsawdd (lliniaru ac addasu)	4	1	3	2

2.6.2 Mewn perthynas â phynciau'r ISA, sef adnoddau naturiol, bioamrywiaeth a geodamrywiaeth, yr amgylchedd hanesyddol a'r dirwedd, bydd natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn dibynnu ar leoliad y twf, a sut y caiff datblygiad ei ddylunio/ ei weithredu. Wrth i lefel y twf gynyddu, felly hefyd y tebygolrwydd y bydd effeithiau'n digwydd, ac y bydd effeithiau negyddol yn codi. Mae effeithiau gweddilliol yn hyn o beth yn ansicr, a chânt eu llywio'n well drwy ystyried lleoliad twf, sensitifrwydd derbynyddion, a'r mesurau lliniaru posib sydd ar gael. Mae opsiynau twf is yn cael eu rhestru'n fwy ffafriol o ran yr effeithiau amgylcheddol posib, er y cydnabyddir hefyd fod gan lefelau uwch o ddatblygiad botensial pellach i gyflawni gwelliannau amgylcheddol a allai arwain at effeithiau cadarnhaol.

2.6.3 Yn yr un modd, o ran pwnc yr ISA ar newid hinsawdd, nodir ansicrwydd, gan nad yw cyfleoedd penodol, a fyddai'n helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (NTG) y pen yn sylweddol, neu'n darparu ynni newydd siŵn garbon isel neu adnewyddadwy, wedi'u cadarnhau. Mae'r pwnc ISA hwn, fodd bynnag, yn gweld tuedd i'r gwrthwyneb o ran safleoedd, am fod gan opsiynau twf uwch fwy o botensial i gefnogi uwchraddio seilwaith sy'n lleihau tagfeydd a gwella hygyrchedd, gan gefnogi trosglwyddiad i economi allyriadau is/carbon niwtral. Mae ganddynt hefyd fwy o botensial i gyfrannu at well cysylltedd ecolegol, rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, mannau agored a mesurau gwyrdd trefol, sy'n cefnogi gwydnwch hinsawdd.

2.6.4 O ran y pwnc ISA trafndiaeth a symud, mae'r opsiynau sy'n cynnig lefel uwch o dwf yn fwy tebygol o arwain at effeithiau ar y rhwydwaith priffyrdd

lleol drwy fwy o draffig a thagfeydd, ond nid oes tystiolaeth yn awgrymu y byddai'r effeithiau'n debygol o fod yn sylweddol. Ystyrir bod y cynnydd diweddar mewn gweithio gartref, o ganlyniad i bandemig Covid-19, yn debygol o fod yn drech na thuedd tymor hwy a fydd yn parhau i gefnogi llai o dagfeydd. Ar ben hynny, ystyrir y lefelau twf uwch am eu potensial i sicrhau hygyrchedd a gwelliannau seilwaith ac arwain at gymunedau mwy hunangynhwysol, lefelau llai o gymudwyr a newid modiwlaid, y mae pwysigrwydd pob un ohonynt wedi'u hamlygu yn ystod y pandemig. O ganlyniad, caiff opsiynau twf uwch eu trefnu'n fwy ffafriol ar y cyfan.

- 2.6.5 Ystyrir bod Opsiwn A yn debygol o achosi effeithiau negyddol sylweddol ar bynciau ISA yr economi a chyflogaeth, y boblogaeth a chymunedau, iechyd a llesiant, a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Mae hyn yn bennaf oherwydd twf cyfyngedig sy'n cyfyngu'n ddifrifol ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydbwysedd demograffig tebygol a dirywiad economaidd. O dan yr opsiwn hwn, mae gostyngiad mewn grwpiau oedran iau, yn enwedig y grŵp oedran gweithio, yn debygol o arwain at golli swyddi, a lleihad mewn canolfannau economaidd a lleol yn gwaethygu ynysu gwledig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i rai grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, megis pobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl, sy'n tueddu i gael eu heffeithio'n anghymesur gan faterion hygyrchedd ac effeithiau negyddol seilwaith trafnidiaeth. Ar ben hynny, efallai y bydd diffyg datblygiad yn y dyfodol nid yn unig yn cyfyngu ar gyfleoedd difrifol i fynd i'r afael ag anghenion tai newidiol o ran mathau a deiliadaethau, ond mae hefyd yn debygol o gynyddu prisiau tai a gwaethygu fforddiadwyedd.
- 2.6.6 Nodir yr opsiynau twf uwch (Opsiyau H a J, ond yn enwedig H) fel rhai sy'n perfformio'n well yn erbyn y pynciau ISA hyn, am fod y twf ychwanegol yn rhoi cyfle i ddarparu ystod fwy o dai newydd, cyfleoedd cyflogaeth, a seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion y Fwrdeistref Sirol. Rhagwelir effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer Opsiyau H a J o dan bwnc ISA yr economi a chyflogaeth, a rhagwelir effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer Opsiyau, H, I a J o dan bwnc ISA y boblogaeth a chymunedau.

2.7 Canlyniadau asesu – lleoliad twf

2.7.1 Mae Tabl NTS.4 ac NTS.5 yn darparu'r canfyddiadau cronol ar gyfer asesu'r opsiynau ar gyfer lefel y twf.

Tabl NTS.4: Crynodeb o ganfyddiadau'r ISA ar gyfer lleoliad twf

Pwnc ISA	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4	Opsiwn 5
Economi a chyflogaeth	2	1	4	3	5
Y boblogaeth a chymunedau	2	1	4	3	5
Iechyd a llesiant	2	1	3	4	5
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	=1	=1	3	5	4
Trafnidiaeth a symud	2	1	5	=3	=3
Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a dŵr)	=1	=1	=3	=3	5
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	=1	=1	=3	=3	5
Amgylchedd hanesyddol	=2	=2	4	1	5
Tirwedd	=3	=1	=1	=3	5
Newid hinsawdd (lliniaru ac addasu)	=1	=1	5	=3	=3

Tabl NTS.5: Crynodeb o ganfyddiadau'r ISA ar gyfer lleoliad twf

Pwnc ISA	Casgliad
Economi a chyflogaeth	At ei gilydd, ystyrir bod Opsiynau 1 a 2 yn perfformio'n fwyaf ffafriol o dan thema ISA economi a chyflogaeth, gydag effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi'u rhagweld yn y cyfnod hwn. Mae hyn oherwydd eu bod nhw'n hwyluso twf cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau; yn mynd i'r afael â materion economaidd lleol; ac yn cefnogi economi sydd â chysylltiadau da. Drwy sicrhau lefel uwch o dwf yng Nghaerffili, ystyrir bod Opsiwn 2 yn perfformio ychydig yn fwy ffafriol na'r dull a ffeirir (Opsiwn 1). Ni nodir unrhyw effeithiau sylweddol o dan Opsiynau 3 a 4 gan nad ydyn nhw'n dosbarthu twf mor gyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol; fodd bynnag rhagwelir mân effeithiau cadarnhaol. Mae Opsiwn 4 wedi'i raddio ychydig yn fwy ffafriol gan ei fod yn dosbarthu twf yn fwy cyfartal nag Opsiwn 3. Yn olaf, nodir ansicrwydd o dan Opsiwn 5 gan, er bod gan yr opsiwn hwn y potensial i arwain at lefel uwch o fuddsoddiad ar draws y Fwrdeistref Sirol, mae'r safleoedd ychwanegol a gynhwysir o dan yr opsiwn hwn yn cynnwys rhai sy'n llai hygyrch i gyfleoedd cyflogaeth.
Poblogaeth a chymunedau	At ei gilydd, ystyrir bod Opsiynau 1 a 2 yn perfformio fwyaf ffafriol o dan thema ISA poblogaeth a chymunedau, ac effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi'u rhagweld ar hyn o bryd. Mae hyn oherwydd eu bod yn dosbarthu tai yn unol â hierarchaeth yr aneddiadau, a thrwy hynny'n helpu i ddiwallu anghenion pob cymuned ar draws y Fwrdeistref Sirol. Drwy sicrhau lefel uwch o dwf yng Nghaerffili, ystyrir bod Opsiwn 2 yn perfformio ychydig yn fwy ffafriol na'r dull a ffeirir (Opsiwn 1).

Pwnc ISA	Casgliad
	Ni nodir unrhyw effeithiau sylweddol o dan Opsiynau 3 a 4 gan nad ydynt yn dosbarthu twf mor gyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol; fodd bynnag rhagwelir mân effeithiau cadarnhaol. Mae Opsiwn 4 wedi'i raddio ychydig yn fwy ffafriol gan ei fod yn dosbarthu twf yn fwy cyfartal nag Opsiwn 3. Yn olaf, nodir ansicrwydd o dan Opsiwn 5. Er y byddai'r opsiwn hwn yn darparu lefel uwch o dwf ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan ddod â manteision mwy o bosibl, mae'r safleoedd ychwanegol sydd wedi'u cynnwys o dan yr opsiwn hwn yn cynnwys rhai sy'n llai hygyrch i gyfleusterau cymunedol ac ardaloedd manwerthu.
Iechyd a llesiant	At ei gilydd, ystyrir bod Opsiynau 1 a 2 yn perfformio'n fwyaf ffafriol o dan thema ISA iechyd a llesiant, gydag effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi'u rhagweld ar hyn o bryd. Mae hyn oherwydd eu bod nhw'n dosbarthu tai yn unol â hierarchaeth aneddiadau, sy'n blaenoriaethu'r aneddiadau sydd â'r cysylltiadau gorau, a thrwy hynny'n sicrhau'r mynediad mwyaf posibl at gyfleusterau iechyd a hamdden. Drwy gyflawni lefel uwch o dwf yng Nghaerffili, ystyrir bod Opsiwn 2 yn perfformio ychydig yn fwy ffafriol na'r dull a ffeirir (Opsiwn 1) gan fod y prif anheddiad hwn yn cael ei ystyried fel yr un sydd â'r cysylltiadau gorau. Ni nodir unrhyw effeithiau sylweddol o dan Opsiynau 3 a 4 gan nad ydynt yn dosbarthu twf mor gyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol; fodd bynnag rhagwelir mân effeithiau cadarnhaol. Mae Opsiwn 3 wedi'i raddio ychydig yn fwy ffafriol nag Opsiwn 4 oherwydd, er bod Blaenau'r Cymoedd yn rhan lai hygyrch o'r Fwrdeistref Sirol, bydd yn creu manteision sy'n gysylltiedig â'i agosrwydd at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn olaf, nodir ansicrwydd o dan Opsiwn 5 oherwydd, er y byddai'r opsiwn hwn yn darparu lefel uwch o dwf ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan greu manteision mwy o bosibl i iechyd a llesiant, gallai hyn fod ar draul diogelu'r seilwaith gwyrdd presennol / mannau agored.
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	Rhagwelir effeithiau cadarnhaol sylweddol ar draws pob opsiwn gan fod pob un yn diwallu'r angen tai a nodwyd, gan gynnwys cyfran o dai fforddiadwy, a byddant yn creu swyddi newydd. Ystyrir bod Opsiynau 1 a 2 yn perfformio'n ffafriol ar y cyfan gan eu bod yn dosbarthu twf yn fwyaf cyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol. Dilyniir hyn gan Opsiwn 3 sy'n canolbwyntio twf yn rhan fwyaf difreintiedig y fwrdeistref, wedyn Opsiwn 5 a fydd yn darparu lefel uwch o dwf, a thrwy hynny'n cynyddu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy a buddsoddiad i'r eithaf. Yn olaf, mae Opsiwn 4 wedi'i raddio'n lleiaf ffafriol gan yr ystyrir bod dosbarthiad twf o dan yr opsiwn hwn yn creu llai o fanteision ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol, yn enwedig i ran ganolog Caerffili.
Trafnidiaeth a symud	At ei gilydd, ystyrir bod Opsiynau 1 a 2 yn perfformio'n fwyaf ffafriol o dan thema ISA trafnidiaeth a symudiad, a rhagwelir effeithiau cadarnhaol sylweddol yn y cam hwn. Mae hyn oherwydd eu bod yn dosbarthu tai yn unol â hierarchaeth aneddiadau, sy'n blaenoriaethu'r aneddiadau sydd â'r cysylltiadau gorau, a thrwy hynny'n cynyddu'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy i'r eithaf, gan annog newid moddol i ffwrdd o'r cerbyd preifat. Drwy gyflawni lefel uwch o dwf yng Nghaerffili, ystyrir bod Opsiwn 2 yn perfformio ychydig yn fwy ffafriol na'r dull a ffeirir (Opsiwn 1) oherwydd ystyrir mai'r prif anheddiad hwn sydd â'r cysylltiadau gorau. Ni nodir unrhyw effeithiau sylweddol o dan Opsiynau 3, 4 a 5 gan nad ydynt yn dosbarthu twf mor gyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae Opsiwn 5 wedi'i restru'n gyfartal ag Opsiwn 4 oherwydd y manteision a'r anfanteision a amlinellwyd uchod; fodd bynnag nodir rhywfaint o ansicrwydd yn hyn o beth. Mae Opsiwn 3 wedi'i raddio'n lleiaf ffafriol gan mai Blaenau'r Cymoedd yw'r rhan o'r Fwrdeistref Sirol sydd â'r cysylltiadau lleiaf.
Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a dŵr)	Ystyrir mai Opsiynau 1 a 2 fydd yn perfformio yn fwyaf ffafriol gan y rhagfynegir y byddan nhw'n cael yr effaith isaf ar adnoddau naturiol. Ni nodir unrhyw effeithiau sylweddol o dan yr opsiynau hyn gan eu bod yn cadw tir amaethyddol cynhyrchiol, ac er y bydd hyn yn arwain at sterileiddio rhai adnoddau mwynau, mae ffiniau ardaloedd diogelu mwynau (MSAs) yn cael eu

Pwnc ISA	Casgliad
	haddasu i sicrhau nad ydynt yn gorgyffwrdd â thir y tu mewn i ffiniau aneddiadau. Mae Opsiynau 3 a 4 wedi'u rhestru ychydig yn llai ffafrïol oherwydd cynnwys safleoedd ychwanegol sy'n gorgyffwrdd ag Ardaloedd Diogelu Mwynau ac sydd yn agos brif afonydd, er na ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol o dan yr opsiynau hyn ychwaith. Opsiwn 5 sydd wedi'i raddio'n lleiaf ffafrïol, a nodir effeithiau negyddol sylweddol, oherwydd byddai'r lefel ychwanegol o dwf a gynigir drwy'r opsiwn hwn yn arwain at golled ddiangen o adnoddau naturiol ychwanegol.
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	Ystyrir mai Opsiynau 1 a 2 fydd yn perfformio fwyaf ffafrïol gan y rhagfynegir y bydd ganddynt yr effaith isaf ar fioamrywiaeth. Ni nodir unrhyw effeithiau sylweddol o dan yr opsiynau hyn, er yr ystyrir bod mân effeithiau negyddol yn debygol o ystyried agosrwydd rhai safleoedd o dan yr opsiynau hyn at safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth. Mae Opsiynau 3 a 4 wedi'u rhestru ychydig yn llai ffafrïol oherwydd cynnwys safleoedd ychwanegol sydd ger safleoedd dynodedig ar gyfer bioamrywiaeth a chynefinoedd blaenoriaeth. Er na ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol o dan yr opsiynau hyn ychwaith, rhagwelir mân effeithiau negyddol. Opsiwn 5 sydd â'r sgôr leiaf ffafrïol, a nodir effeithiau negyddol sylweddol, oherwydd byddai'r lefel ychwanegol o dwf a gynigir drwy'r opsiwn hwn yn arwain at effaith ddiangen ar ragor o ardaloedd o werth o ran bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol.
Amgylchedd hanesyddol	At ei gilydd, Opsiwn 4 sydd wedi'i raddio'n fwyaf ffafrïol gan fod y safleoedd amrywiol o dan yr opsiwn hwn yn gymharol ddigyfyngiad o safbwynt treftadaeth, a'r opsiwn hefyd yn hepgor rhai o'r safleoedd mwy sensitif sydd wedi'u cynnwys o dan y strategaeth a ffefrir (Opsiwn 1). Dilynir hyn gan Opsiynau 1 a 2 yn dilyn hyn, sy'n cynnwys safleoedd sydd ychydig yn fwy cyfyngedig. Mae Opsiwn 3 wedi'i raddio ychydig yn llai ffafrïol o ystyried y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r safleoedd amrywiol o dan yr opsiwn hwn, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â ffocws mwy gwledig yr opsiwn hwn. Er y rhagwelir y gallai dylunio a thirlunio da liniaru effeithiau andwyol posibl ar leoliad asedau treftadaeth o dan yr opsiynau hyn, nid yw hyn yn hysbys ar hyn o bryd ac felly nodir ansicrwydd. Rhagwelir effeithiau negyddol sylweddol o dan Opsiwn 5 gan fod gan yr opsiwn hwn y potensial i effeithio'n andwyol ar nifer llawer uwch o asedau treftadaeth o ystyried y lefel a'r lledaeniad twf cynyddol a gynigir. Er y gallai mesurau lliniaru hefyd leihau effeithiau andwyol posibl i ryw raddau, ystyrir bod hyn yn fwy heriol o dan yr opsiwn hwn o ystyried lefel y twf a gynigir.
Tirwedd	At ei gilydd, Opsiynau 2 a 3 sydd wedi'u graddio'n fwyaf ffafrïol gan fod y safleoedd amrywiol o dan yr opsiwn hwn yn gymharol ddigyfyngiad o safbwynt tirwedd, tra bod yr opsiynau hyn hefyd yn hepgor rhai o'r safleoedd mwy sensitif sydd wedi'u cynnwys o dan y strategaeth a ffefrir (Opsiwn 1). Dilynir hyn gan Opsiynau 1 a 4, sy'n cynnwys safleoedd sydd ychydig yn fwy cyfyngedig. Er y rhagwelir y gallai dylunio da a gwaith tirlunio / sgrinio liniaru effeithiau andwyol posibl ar gymeriad y dirwedd o dan yr opsiynau hyn, nid yw hyn yn hysbys ar y cam hwn, ac felly nodir ansicrwydd. Rhagwelir effeithiau negyddol sylweddol o dan Opsiwn 5 gan fod gan yr opsiwn hwn y potensial i effeithio'n andwyol ar nodweddion y dirwedd dros ardal llawer ehangach o ystyried y lefel a'r lledaeniad cynyddol o dwf a gynigir. Er y gallai mesurau lliniaru hefyd leihau effeithiau andwyol posibl i ryw raddau, ystyrir bod hyn yn fwy heriol o dan yr opsiwn hwn o ystyried lefel y twf arfaethedig.
Newid hinsawdd (liniaru ac addasu)	At ei gilydd, mae'n anodd gwahaniaethu rhwng yr opsiynau o ran addasu i newid hinsawdd a'i liniaru. Serch hynny, ystyrir bod Opsiynau 1 a 2 yn perfformio ychydig yn fwy ffafrïol o ystyried eu bod yn cyfeirio twf i'r rhannau mwyaf hygyrch o'r Fwrdeistref Sirol. Ystyrir bod Opsiwn 3 yn perfformio waethaf am y rhesymau i'r gwrthwyneb O ystyried graddfa fyd-eang newid

Pwnc ISA	Casgliad
	hinsawdd, a'r ffaith y bydd datblygiad yn debygol o ddigwydd gyda'r cynllun neu hebdo, ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol.

3. Ymateb y Cyngor i asesiad o ddewisiadau amgen

3.1 Y dull a ffeirir

- 3.1.1 Opsiwn J yw'r dull a ffeirir o hyd ar gyfer lefel y twf ac mae Opsiwn 1 yn parhau i fod y dull a ffeirir ar gyfer dosbarthiad gofodol datblygiad.
- 3.1.2 Mae'r asesiadau uchod yn dangos mai Opsiynau H (parhad â'r CDLI mabwysiedig) a J (twf y boblogaeth oedran gweithio yn CCR) yw'r senarios mwy cynaliadwy o ran lefel y twf, a'r un peth yn wir am Opsiynau 1 (strategaeth a ffeirir ar gyfer 2CDLIA) a 2 (ffocws Basn Caerffili) o ran dosbarthiad gofodol.
- 3.1.3 Nodir bod y broses a fabwysiadwyd gan y Cyngor o ran ei ystyriaeth o senarios twf ac opsiynau ar gyfer dosbarthiad gofodol datblygiad wedi'u nodi yn y Papur Cefndir Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai a thystiolaeth atodol.

3.2 Ymateb y Cyngor i'r opsiynau ar gyfer lefel y twf

- 3.2.1 Mae'r cyfiawnhad dros ddewis Opsiwn J wedi'i nodi yn Nhabl NTS.6 isod:

Tabl NTS.6: Ystyriaeth o'r opsiwn twf a ffeirir

Opsiwn	Amlinellu'r rhesymau
Opsiwn A – Prif amcanestyniad LIC yn seiliedig ar 2018	Mae'r senario hon yn cynnig lefel isel iawn o dwf yn y boblogaeth (1%) dros y 15 mlynedd nesaf, o ganlyniad i newid naturiol negyddol (marwolaethau uwch a genedigaethau is). Mae twf yn y boblogaeth yn gyfan gwbl oherwydd mudo. Byddai'r senario hon yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y boblogaeth 0 i 15 oed ac oedran gweithio, a chynnydd sylweddol yn y boblogaeth hŷn (67+). Mae'r aelwydydd canlyniadol sy'n seiliedig ar yr amcanestyniad poblogaeth hwn hefyd yn isel (3.2%). Mae hyn yn cyfateb i ofyniad o 170 annedd y flwyddyn, neu 198 o anheddau yn y senario cyfradd aelodaeth wedi'i addasu, sy'n llawer is na chyfraddau adeiladu'r gorffennol.
Opsiwn H – Parhad CDLI a fabwysiadwyd	Mae'r senario hwn yn darogan cynnydd yn y boblogaeth o 8.8%, neu 8.3% yn y senario wedi'i addasu gan yr aelodaeth. Mae hyn yn uwch na'r twf yn y boblogaeth a brofwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a byddai angen lefel o fudo sy'n sylweddol uwch na'r hyn a brofwyd o'i gymharu â thueddiadau hirdymor. Byddai'r opsiwn hwn, fodd bynnag, yn gwrthdroi'r gostyngiad a ragwelir yn y boblogaeth oedran gweithio drwy ddarparu poblogaeth economaidd gryfach i gefnogi twf swyddi yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd cynnydd yn y boblogaeth hŷn uwchben yr hyn y mae'r prif amcanestyniad yn ei ddangos, ond oherwydd proffil mudwyr, yn gymesur ni fyddai twf y grŵp hwn o'i gymharu â'r prif amcanestyniad mor sylweddol ag ar gyfer y boblogaeth oedran gweithio, gan helpu i gefnogi poblogaeth fwy

Opsiwn**Amlinellu'r rhesymau**

	cytbwys. Byddai hefyd yn lleihau i ba raddau y rhagamcanir y bydd y boblogaeth oedran ysgol yn gostwng. Yn nhermau adeiladu tai, er mai 575 o dai yw'r gofyniad blynyddol yn y CDLI mabwysiedig, nid yw'r lefel hon o adeiladu tai wedi'i bodloni ers 2008, ac un o gasgliadau cyson Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMR) olynol yw nad yw'r gofynion tai yn y CDLI wedi'u bodloni. Am fod llai na 575 o dai y flwyddyn wedi'u hadeiladu yn y gorffennol, byddai angen dangos y ei fod yn bosib cyflawni'r ffigwr o 575.
Opsiwn I – Cyfraddau adeiladu tai hirdymor	Mae'r senario adeiladu tai hirdymor yn adlewyrchu'n glir lefel realistig o adeiladu tai, o gofio mai'r hyn a gyflawnwyd dros gyfnod hir, er ei fod yn uchelgeisiol o'i gymharu â thueddiadau tymor byrrach. Ar y cyfan, byddai'r senario a arweinir gan dai yn arwain at gynydd yn y boblogaeth (4.9%, neu 4.4% yn y senario wedi'i addasu gan aelodaeth), a ystyrir yn uchelgeisiol, ond yn gyraeddadwy. Bydd yn helpu i gyflawni strwythur poblogaeth lle gall y boblogaeth sy'n economaidd weithgar dyfu a helpu i gefnogi'r ddarpariaeth swyddi newydd. Ond mae amheuaeth a yw'r lefel hon o dwf yn ddigon uchelgeisiol i adlewyrchu safle Caerffili o fewn Ardal Dwf Genedlaethol, a dyheadau economaidd CCR.
Opsiwn J – Twf CCR yn y boblogaeth oedran gweithio	Byddai lefel y twf a gynigir yn y senario hwn yn cefnogi dyheadau twf rhanbarthol oherwydd bydd grym llafur priodol ar gael i gefnogi creu swyddi yn y rhanbarth yn y dyfodol. Byddai'r senario yn gofyn am gynydd mewn mudo i lefel sy'n uwch na thueddiadau tymor hir, ond a ystyrir yn gyraeddadwy. Mae'r gofyniad o 450 o anheddau y flwyddyn yn uwch na thueddiadau'r gorffennol hirdymor ond mae ar lefel sy'n uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy.

3.3 Ymateb y cyngor i opsiynau ar gyfer lleoliad twf

3.3.1 O ran datblygu strategaeth 2CDLIA a ffeirir, ystyriwyd y chwe opsiwn canlynol. Aseswyd y rhain at ddibenion yr ISA, gyda chanfyddiadau'r asesiad wedi'u nodi yn yr Adroddiad ISA Cychwynnol:

- Opsiwn 1 – Parhau â'r strategaeth CDLI a fabwysiadwyd.
- Opsiwn 2 – Ffocws Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd
- Opsiwn 3 – Safle strategol allweddol (Maesycwmer);
- Opsiwn 4 – Ffocws buddsoddi yn y Metro
- Opsiwn 5 – Canol y Dref yn Gyntaf
- Option 6 – Ffocws Basn Caerffili

3.3.2 O ganlyniad i'r broses hon, dewiswyd Opsiynau 3, 4 a 5 fel elfennau cyfansoddol o strategaeth hybrid ar gyfer yr ymgynghoriad Cynllun Cyn-Adneuo cychwynnol yn 2022, er, yn dilyn gwrthwynebiad ynghylch cydymffurfio gan Lywodraeth Cymru, cafodd Opsiwn 3, ynghyd â'r safle yr oedd yn seiliedig arno, ei ddiddymu'n ddiweddarach. Fel y nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, mae'r ystod o opsiynau wedi'i lleihau i bump o ganlyniad i'r gwaith cynharach yn ymwneud ag ystyried yr opsiynau a hefyd gan ystyried y safleoedd ymgeisiol hynny a basiodd y ddau gam o'r asesiad. Felly, y dewisiadau a ystyrir nawr yw:

- Opsiwn 1 – y strategaeth a ffeirir 2CDLIA;
- Opsiwn 2 – Ffocws Basn Caerffili;
- Opsiwn 3 – Ffocws Blaenau'r Cymoedd;
- Opsiwn 4 – Parhau â'r strategaeth CDLI a fabwysiadwy;
- Opsiwn 5 – strategaeth twf uwch.

3.5 Er yr ystyrir bod Opsiynau 1 (strategaeth ddewisol 2CDLIA) a 2 (ffocws Basn Caerffili) yn fwy cynaliadwy, mae'r cyfiawnhad dros ddewis ffocws buddsoddi'r Metro a 'chanol y dref yn gyntaf' fel sail i strategaeth yr 2CDLIA (Opsiwn 1) wedi'i nodi yn Nhabl NTS.7 isod:

Tabl NTS.7: Ystyriaeth o'r opsiwn gofodol a ffeirir

Opsiwn	Amlinellu'r rhesymau
Opsiwn 1 – y strategaeth a ffeirir 2CDLIA	Ffocws Buddsoddi Metro Nod yr opsiwn hwn yw canolbwyntio datblygiad yn agos at y gorsafoedd ar reilffordd Cwm Rhymni a Chwm Ebwy a'r gorsafoedd bysiau yn y Coed-duon a Nelson. Mae'r ffocws hwn yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Cymru'r Dyfodol er mwyn sicrhau'r budd gorau o'r buddsoddiad yn y Metro. Gall yr opsiwn hwn arwain at fuddion sylweddol o ran cefnogi a chynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy, wrth gynyddu hygyrchedd. Effaith yr opsiwn hwn yw datblygu safleoedd ger ac o fewn aneddiadau presennol, ac o'r herwydd, mae'r opsiwn hwn yn cynyddu'r pwysau ar fannau agored trefol a allai effeithio'n andwyol ar ansawdd bywyd yn yr aneddiadau hynny. Yn ogystal, gallai'r opsiwn hwn eithrio safleoedd sydd wedi'u lleoli'n gynaliadwy a safleoedd buddiol sydd wedi'u lleoli ymhellach o nodau trafnidiaeth na safleoedd llai buddiol. Er gwaethaf yr elfennau negyddol, gellid symud yr opsiwn hwn ymlaen fel y Strategaeth a Ffeirir ar gyfer y 2CDLIA sy'n dod i'r amlwg. Canol y Dref yn Gyntaf Nod yr opsiwn hwn yw canolbwyntio datblygiad newydd tuag at brif ganol trefi Caerffili, Rhisga/Pontymister, Ystrad Mynach, y Coed-duon a Bargod, a chanolfannau lleol Bedwas, Nelson, Trecelyn a Rhymni. Mae'r opsiwn hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â pholisi Cymru'r Dyfodol sy'n argymhell dull gweithredu Canol y Dref yn gyntaf. Mae'r opsiwn hwn yn cyd-fynd yn frwd â gwneud lleoedd ac aneddiadau cynaliadwy. Unwaith eto, mae'r opsiwn hwn yn ceisio cyfarwyddo datblygiad newydd o fewn aneddiadau presennol, sy'n debygol o osod mannau agored trefol o dan bwysau sylweddol i'w datblygu, a gallai arwain at anfanteision o ran ansawdd bywyd yn yr aneddiadau hyn. Yn ogystal, gall yr opsiwn hwn golli allan ar safleoedd sydd wedi'u lleoli'n fwy cynaliadwy, yn enwedig y rhai sy'n agos at nodau trafnidiaeth y tu allan i'r prif ganolfannau a chanolfannau lleol. Ar y cyfan, gellid symud yr opsiwn hwn ymlaen fel y Strategaeth a Ffeirir ar gyfer y 2CDLIA sy'n dod i'r amlwg.
Option 2 – Ffocws Basn Caerffili	Mae'r opsiwn hwn yn ceisio targedu datblygiad newydd o fewn Basn Caerffili, yn unol â datganiad Cymru'r Dyfodol, sy'n nodi bod Caerffili yn lleoliad strategol ar gyfer twf economaidd ac adfywio cynaliadwy. Byddai'r opsiwn hwn yn ceisio sicrhau'r buddion mwyaf posib o'r lefel

Opsiwn**Amlinellu'r rhesymau**

sylweddol o fuddsoddiad adfywio sy'n mynd i dref Caerffili drwy leoli cyfran sylweddol o'r gofyniad 2CDLIA yn yr ardal hon.

Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ddatblygiad maes glas a maes llwyd i alluogi digon o dir i fod ar gael i fodloni gofynion 2CDLIA. Byddai rhyddhau tir maes glas yn gwrthdroi'r strategaeth CDLI mabwysiedig, a byddai'n rhoi'r dirwedd o fewn Basn Caerffili dan fygythiad effaith andwyol o ddatblygiadau newydd. Byddai hefyd yn dod â safleoedd dadleuol iawn blaenorol i'w hystyried fel dyraniadau, ac mae hyn yn debygol o arwain at wrthwynebiad sylweddol. Mae angen ystyried mater y llain las o amgylch Caerffili, er nad yw'n fater i'r 2CDLIA mewn gwirionedd, oherwydd man cychwyn unrhyw ffin llain las yw a oes digon o dir ar gyfer ehangu aneddiadau yn y dyfodol wedi'i ganiatáu.

Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi cyfle i gyflwyno datblygiad newydd ger cyfnewidfa Caerffili a chanol y dref, gan sicrhau datblygiad cynaliadwy mewn ardal lle mae galw mawr am dai ac angen tai cymdeithasol.

Er gwaethaf manteision cryf yr opsiwn hwn, mae'r posibilrwydd o effaith andwyol ar y dirwedd, effaith posib ar y llain las, a natur hynod ddadleuol datblygiad tir glas ym Masn Caerffili, yn golygu y'i hystyriar yn annhebygol y byddai strategaeth o dan yr opsiwn hwn yn llwyddo i wireddu cynllun mabwysiedig. O ganlyniad, nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn opsiwn realistig i'w ystyried ar gyfer Strategaeth a Ffefrir y 2CDLIA sy'n dod i'r amlwg.

Opsiwn 3 – Ffocws Blaenau'r Cymoedd

Nod y Cyngor yw adfywio ardal Blaenau'r Cymoedd (HoV) y Fwrdeistref Sirol er mwyn mynd i'r afael â'i heriau economaidd-gymdeithasol cynhenid ac amddifadedd. Byddai strategaeth sy'n ceisio canolbwyntio lefel sylweddol o ddatblygiad i ardal HoV yn sicr o gynorthwyo gydag adfywio'r ardal. Wrth baratoi'r cynllun, fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor ddangos bod y safleoedd a ddyrannwyd i fodloni gofynion tai a thir cyflogaeth 2CDLIA yn hyfyw ac y gellir eu cyflawni yng nghyfnod y cynllun.

Yn anffodus, mae ardal HoV yn ardal sydd â gwerthoedd tir isel a gwerthoedd tai isel hefyd. Oherwydd hyn, mae'n anodd iawn dangos bod unrhyw safleoedd yn yr ardal hon yn hyfyw ac y gellir eu darparu o fewn cyfnod y cynllun. O ganlyniad, dim ond nifer fach iawn, os unrhyw safleoedd, gellid eu nodi i fodloni'r gofynion 2CDLIA. Nid yw hyn adlewyrchu pwrpas yr opsiwn strategaeth i nodi swm sylweddol o'r gofyniad 2CDLIA yn yr ardal. O ystyried y materion hyn, nid yw'r opsiwn hwn yn briodol i'w ystyried ar gyfer yr 2CDLIA sy'n dod i'r amlwg am na fydd yn darparu lefel datblygu yn ardal HoV y byddai ei hangen ar y strategaeth.

Dylid nodi, fodd bynnag, er nad yw'r opsiwn hwn yn briodol i'w ddefnyddio fel strategaeth 2CDLIA, nid yw hyn yn atal y cynllun rhag nodi safleoedd uchelgeisiol (rhaf a allai ddod ymlaen, ond nad ydynt yn cyfrif tuag at fodloni'r gofyniad) i geisio cynyddu datblygiad yn yr ardal.

Opsiwn 4 – Parhad y strategaeth CDLI a fabwysiadwyd.

Mae llawer o faterion yn deillio o'r opsiwn hwn, ond y mater allweddol yw'r paramedrau a nodir yn y strategaeth ar gyfer datblygu newydd h.y. o fewn ffiniau aneddiadau ac ar dir llwyd yn y coridor cysylltiadau deheuol yn unig. O ystyried y cyfyngiadau hyn, prin iawn yw'r safleoedd y gellid eu cyflwyno i gyflawni'r strategaeth hon, ac o ganlyniad, nid oes digon o safleoedd ar gael i gyflawni'r strategaeth hon. Am y rheswm hwn, ystyriar nad yw'r strategaeth hon yn briodol ar gyfer yr egin 2CDLIA.

Opsiwn**Amlinellu'r rhesymau****Opsiwn 5 – Opsiwn Twf Uwch**

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys yr holl safleoedd ymgeisiol hynny a gyflwynwyd ar gyfer tai a basiodd y ddau gam o'r asesiad safleoedd ymgeisiol, ac nad ydynt fel arall yn cyfrannu at y gofyniad tir ar gyfer tai fel ymrwymïadau nac wedi'u cwblhau.

Gan ystyried y ffigurau cwblhau/ymrwymiad a ffigurau ffawdelw, byddai hyn yn arwain at gyfanswm o unedau ychydig yn fwy na'r gofyniad o 575 y flwyddyn y byddai opsiwn 4 yn eu cyflawni, er y byddai hyn yn ddi-os yn ddiffygiol ar ôl ychwanegu lwfans hyblygrwydd. Yn ogystal, nid yw'n ymgorffori mecanwaith ar gyfer diystyru'r safleoedd mewn lleoliadau llai cynaliadwy, na'r rhai nad ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd â'r hierarchaeth aneddiadau.

Felly, ni ystyrir bod yr opsiwn hwn yn addas o ran cynaliadwyedd ei batrwm dosbarthu, ac nid yw'n cyd-fynd â lefel y twf y mae'r opsiwn (J) a ddewiswyd yn ceisio'i gyflawni.

4. Asesiad o'r Cynllun Adnau

Mae Adroddiad yr ISA wedi gwerthuso'r Cynllun Adnau llawn gan ystyried y strategaeth ofodol a'r gyfres o bolisiau arfaethedig. Mae Tabl NTS.8 yn darparu'r casgliadau a gyrhaeddwyd ar gyfer pob pwnc ISA.

Tabl NTS.8: Casgliadau'r asesiad

Pwnc ISA	Casgliad
Economi a chyflogaeth	At ei gilydd, ystyrir bod y cynllun yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol mawr o dan thema ISA economi a chyflogaeth. Nid yn unig y mae'r cynllun yn dyrannu tir i ddiwallu anghenion tir cyflogaeth y Fwrdeistref Sirol, ond mae hefyd yn annog cyfleoedd adfywio; yn cyfeirio twf tai yn agos at ganolfannau cyflogaeth neu mewn lleoliadau sydd â chysylltedd da â'r canolfannau hyn; yn amddiffyn ardaloedd manwerthu a masnachol presennol; ac yn hyrwyddo twristiaeth. Wrth wneud hynny, mae'r cynllun yn debygol o hybu'r economi leol a chreu swyddi newydd i drigolion presennol a rhai'r dyfodol.
Poblogaeth a chymunedau	At ei gilydd, ystyrir bod y cynllun yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol mawr o dan thema ISA poblogaeth a chymunedau. Mae hyn yn bennaf oherwydd ei fod yn dyrannu safleoedd a fydd yn darparu tai sy'n fwy na gofyniad tai'r Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys darparu tai fforddiadwy. Ymhellach, mae'r cynllun yn cyfeirio twf i'r lleoliadau mwyaf hygyrch; yn darparu amrywiaeth o fathau o dai; yn ceisio darparu cyfleusterau cymunedol a chymdeithasol newydd, a diogelu cyfleusterau presennol; ac yn annog dylunio da.
Iechyd a llesiant	Yn gyffredinol, ystyrir bod y cynllun yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol cymedrol o dan thema ISA iechyd a llesiant. Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf y darpariaethau a wnaed o fewn fframwaith y polisi, gan gynnwys hyrwyddo dylunio ac amodau byw da; darparu seilwaith gwyrdd a chyfleusterau hamdden; a lleihau'r risg o niwed i iechyd y cyhoedd. Cydnabyddir hefyd y bydd darparu twf tai a chyflogaeth yn unol ag anghenion a nodwyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a llesiant.
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	At ei gilydd, ystyrir bod y cynllun yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol cymedrol o dan thema ISA cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Mae'r strategaeth ofodol yn cynnwys safleoedd yn y rhannau mwy difreintiedig o'r Fwrdeistref Sirol, tra bod y fframwaith polisi yn ystyried anghenion tai holl aelodau'r gymuned, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
Trafnidiaeth a symud	Yn gyffredinol, ystyrir bod y cynllun yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol cymedrol o dan thema ISA trafndiaeth a symudiad. Mae'r strategaeth ofodol yn ceisio sicrhau bod gan ddatblygiadau yn y dyfodol fynediad da at seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy hynny annog newid moddol i ffwrdd o'r cerbyd preifat. Yn y cyfamser, mae'r fframwaith polisi yn ceisio atgyfnerthu hyn drwy ddulliau sy'n cynnwys dylunio da a sicrhau rhwymedigaethau cynllunio.
Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a dŵr)	At ei gilydd, ystyrir bod y cynllun yn debygol o arwain at fân effeithiau cadarnhaol o dan thema ISA adnoddau naturiol. Mae hyn oherwydd bod y strategaeth ofodol yn lleihau colli Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) ac mae ffiniau adnoddau a ddiogelir wedi'u haddasu yn unol â hynny i ganiatáu twf heb sterileiddio na rhwystro mynediad at yr adnoddau hyn. Yn ogystal, mae'r fframwaith polisi yn mynd i'r afael ag adnoddau mwynau yn fanwl ac yn cefnogi defnydd effeithlon o adnoddau a lleihau gwastraff.
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	At ei gilydd, ystyrir bod y cynllun yn debygol o arwain at fân effeithiau negyddol o dan thema'r ISA bioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Cydnabyddir bod y fframwaith polisi yn ceisio lliniaru effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth drwy annog datblygiad sy'n darparu budd net i fioamrywiaeth; dynodi Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur (SINC); a diogelu a gwella'r

Pwnc ISA	Casgliad
	rhwydwaith seilwaith gwyrdd a glas (GBI). Fodd bynnag, mae dau o'r dyraniadau safle yn agos at safleoedd rhyngwladol a/neu safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth, a'r un safle yn gorgyffwrdd â SINC. Yn hyn o beth, mae gan y strategaeth ofodol botensial i arwain at effeithiau andwyol ar y safleoedd bioamrywiaeth hyn, er bod rhywfaint o ansicrwydd wedi'i nodi.
Amgylchedd hanesyddol	At ei gilydd, ystyrir bod y cynllun yn debygol o arwain at effeithiau niwtral o dan thema ISA amgylchedd hanesyddol. Er y cydnabyddir bod y strategaeth ofodol yn darparu safleoedd sy'n agos at asedau treftadaeth dynodedig ac ardaloedd cadwraeth, ystyrir bod y darpariaethau a wneir drwy'r fframwaith polisi yn lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl yn briodol. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol; hyrwyddo dylunio sy'n sensitif i dreftadaeth ac adfywio dan arweiniad treftadaeth; dynodi adeiladau o bwys lleol; a chydabod gweddillion archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi.
Tirwedd	At ei gilydd, ystyrir bod y cynllun yn debygol o arwain at fân effeithiau negyddol o dan thema ISA tirwedd. Er nad yw'r strategaeth ofodol yn cyfeirio twf yn agos at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd, bydd yn darparu datblygiad ar dir maes glas a thir mewn lleoliad Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Cydnabyddir bod y fframwaith polisi yn ceisio sicrhau nad yw datblygiad yn yr ardaloedd a nodwyd hyn yn effeithio'n andwyol ar gymeriad y dirwedd. Fodd bynnag, ystyrir bod potensial o hyd ar gyfer effeithiau andwyol o ganlyniad i ddatblygu'r safleoedd hyn, er bod rhywfaint o ansicrwydd wedi'i nodi ar hyn o bryd.
Newid hinsawdd (lliniaru ac addasu)	At ei gilydd, ystyrir bod y cynllun yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol cymedrol o dan thema ISA newid hinsawdd. Mae'r strategaeth ofodol yn cyfeirio twf i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, gan flaenoriaethu lleoliadau hygyrch a fydd yn cynyddu'r defnydd o deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i'r eithaf, a thrwy hynny'n lleihau allyriadau o drafnidiaeth. Yn ogystal, drwy gynnwys sawl safle mawr, mae'r strategaeth ofodol yn darparu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. Cefnogir hyn gan y fframwaith polisi, sydd hefyd yn mynd i'r afael ag allyriadau carbon ymgorfforedig; effeithlonrwydd ynni; a lliniaru risg llifogydd.

5. Camau nesaf

- 5.1.1 Bydd yr Adroddiad ISA hwn yn cyd-fynd â'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu a'u hystyried yn rhan o'r broses o lunio cynlluniau iteradid a'r ISA Asesiad Cynaliadwyedd Integredig a byddant yn llywio'r 2CDLIA cyn eu cyflwyno.

